Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Rhifyn 1 Haf 2010

NEWYDDION Bwlch Nant yr Arian



Dyddiau cyffrous i ddod

Croeso i gylchlythyr cyntaf Bwlch Nant yr Arian.

Gobeithiwn y bydd yn ffynhonnell ddiddorol o wybodaeth i chi ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y cefndir yn y gyrchfan boblogaidd hon sydd yng ngofal Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Mae llawer o waith caled yn digwydd bob dydd er mwyn sicrhau y bydd pawb yn cael amser da wrth alw heibio, ai am baned o de a theisen yn y Ganolfan Ymwelwyr neu i fwynhau un o'r nifer o lwybrau sy'n crwydro drwy'r coed.

Bu rhai newidiadau'n ddiweddar yn y ffordd y mae pethau'n cael eu rhedeg a hoffwn sôn am y rhain.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rheoli'r Ganolfan Ymwelwyr yn fewnol eto wedi i brydles Ceredig a Janet Morgan ddod i ben.

Rydym yn ddiolchgar dros ben am eu holl waith caled dros y blynyddoedd wrth iddynt helpu i adeiladu enw da Bwlch Nant yr Arian i'r hyn yr ydyw heddiw, ond roeddem yn teimlo mai dyma'r amser i ni reoli'r ganolfan ein hun.

Mae'r ganolfan newydd yn bum mlwydd oed erbyn hyn, ac rydym yn hyderus y bydd y cynlluniau sydd gennym mewn golwg yn ein galluogi ni i fynd â Bwlch Nant yr Arian at y lefel nesaf.

O fewn y ganolfan, bydd un neu ddau newid strwythurol yn digwydd er mwyn lleihau amseroedd aros a gwella'r gwasanaeth, a bydd rhai newidiadau y tu ôl i'r cownter hefyd.

Dywed rheolwr y Ganolfan Ymwelwyr, Gareth Owen, "Ein nod yw cyflwyno bwydlen newydd a bydd llawer o bwyslais ar gynnig y cynnyrch lleol gorau."

Y tu allan, bydd y bloc toiledau'n cael ei wella er mwyn cynnig cyfleuster toiledau a chawodydd newydd, a fydd o fudd i ymwelwyr y tu allan i oriau agor y ganolfan.

Peidiwch ag anghofio: mae'r Ganolfan Ymwelwyr ar agor rhwng 10.00am a 5.00pm drwy gydol yr haf.

Trefnu dyddiad er mwyn dysgu mwy

A hoffech chi wybod mwy am yr adar a'r bywyd gwyllt arall sy'n bodoli ym Mwlch Nant yr Arian?

Bydd staff a gwirfoddolwyr RSPB Cymru ar y safle hyd at 30 Medi fel rhan o gynllun cenedlaethol 'Amser i Fyd Natur' yr RSPB.

Nod y cynllun yw dangos rhyfeddod bywyd gwyllt i bobl mewn mannau gwahanol ledled Cymru, gan gynnwys brain coesgoch yng Ngheudyllau Llechi Llechwedd, gweilch y pysgod ger Porthmadog a hebogau tramor yng nghanol dinas Caerdydd.

Dywed Joe Hawthorne, Swyddog Ymgysylltu Pobl yr RSPB, "Mae'n anhygoel gweld cymaint o farcudiaid coch mewn un man, a bod mor agos atyn nhw hefyd. Rydym yn ceisio dangos golygfeydd agos i deuluoedd trwy finocwlars a thelesgopau – mae'n ddigwyddiad na ddylid ei golli!"

Mae'r manylion ar wefan yr RSPB, sydd â golwg newydd iddi: **www.rspb.org.uk/datewithnature**

Mae'r Amser i Fyd Natur hwn yn bartneriaeth rhwng yr RSPB, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Barcudiaid Cymru.

PWY YW PWY

Gareth Owen

Cafodd GARETH OWEN ei benodi'n rheolwr y Ganolfan Ymwelwyr. Gareth, a oedd gynt yn Rhodiwr Hamdden yn Nant yr Arian, fydd yn gyfrifol am redeg y ganolfan.

Mae SARAH COOKSON newydd ymuno â'r tîm fel Cynorthwyydd yn y Ganolfan Ymwelwyr. Efallai eich bod yn gyfarwydd â hi – roedd hi'n arfer gweithio yma fel warden gyda'r RSPB.

Sarah Cookson



Tom Roberts

TOM ROBERTS yw'r goruchwylydd arlwyo dros dro ac mae'n gyfrifol am drefnu bwydlen leol ac iach ym Mwlch Nant yr Arian, yn ogystal â chynnig cyngor ynglŷn â mwynhau'r cyfleusterau awyr agored.

Y tu ôl i'r cownter, bydd llawer o'r staff a fu'n gweithio i Ceredig a Janet yn parhau i gynnig bwyd a gwasanaeth o'r ansawdd uchaf.



Y caffi

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Amser bwydo'n achosi fflap

Un o'r atyniadau mwyaf ym Mwlch Nant yr Arian yw'r arddangosfa feunyddiol o fedrusrwydd awyrol gan y barcudiaid cochion.

Caiff yr adar ysglyfaethus hyn – a gafodd eu henwi'n hoff aderyn Cymru gan y cyhoedd – eu bwydo ger y llyn a daw torfeydd o bell i'w gweld, gan gludo lensys teleffoto trawiadol mewn rhai achosion!

Mae'r adar hyn, sydd â lled adenydd hyd at 1.8 metr, yn cael eu bwydo gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru mewn partneriaeth ag RSPB Cymru ac Ymddiriedolaeth Barcudiaid Cymru.

Pan gychwynnwyd y sesiynau bwydo 11 mlynedd yn ôl, byddech yn ffodus i weld hanner dwsin o adar yn troelli uwchben, ond erbyn hyn gallwch wylio hyd at 200 o farcudiaid yn plymio i lawr i gipio'u cinio.

Maen nhw'n bwyta'n fras hefyd! Danfonir y darnau maint llygoden o gig amrwd bob wythnos gan gigydd lleol yn Aberystwyth.

Dywed Gareth, "Mae amser bwydo yn Nant yr Arian yn gallu bod yn dipyn o ryfeddod, ond cofiwch, ni allwn warantu dim o ran yr adar. Dyma natur, wedi'r cyfan!"

Mae'r bwydo'n digwydd am 3.00pm yn yr haf a 2.00pm yn y gaeaf.

Y materion gwirioneddol ynghylch mynediad i fferm wynt

Efallai eich bod wedi clywed neu ddarllen llawer o sïon yn ddiweddar ynglŷn â'r ffordd y bydd datblygiad arfaethedig fferm wynt yn Nant y Moch gerllaw yn effeithio ar Fwlch Nant yr Arian.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried cais gan y Deiliad Opsiynau a'r Datblygwr, sef Scottish and Southern Energy (SSE) / Airtricity, i ddod â thyrbinau trwy Fwlch Nant yr Arian.

Gobeithiwn y gallwn ddod i gytundeb erbyn diwedd mis Gorffennaf, ond cyn hynny rydym eisiau sicrhau lleihau'r effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a materol ar Ganolfan Ymwelwyr Nant yr Arian gymaint ag a ellir.

Dyna pam rydym eisiau sicrwydd ynghylch nifer o faterion gan y datblygwr cyn cytuno i unrhyw newid yn y ffordd fynediad.

Ymhlith y materion o dan ystyriaeth y mae'r canlynol:

- yn bennaf, diogelwch ein hymwelwyr – dyma'n prif ystyriaeth
- materion megis amseriad adeiladu unrhyw fynediad newydd er mwyn osgoi'r prif dymor ymwelwyr
- rheolaeth llwythau eithriadol y tu hwnt i brif oriau'r Ganolfan Ymwelwyr - gan efallai eu parcio yn ystod y dydd a chaniatáu iddynt fynd heibio'r Ganolfan Ymwelwyr gyda'r nos ac yn yr hwyr
- gofyniad i darmacio unrhyw fynediad newydd er mwyn osgoi llwch
- tirlunio'r mynediad newydd er mwyn ei wahanu rhag y maes parcio sy'n bodoli
- darparu man parcio arall
- yr angen am greu llwybrau beicio eraill neu eu haddasu, a
- rheolaeth pwyntiau croesi'r llwybrau cerdded â'r llwybrau beicio
- sicrhau mai'r canlyniad fydd dêl fasnachol a fydd yn cynrychioli gwerth llawn y mynediad hwn a gan ystyried yr holl anghenion uchod.

Rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i gadw'r Ganolfan Ymwelwyr ar agor, ond byddwn eisiau iawndal am unrhyw aflonyddwch neu os bydd yn rhaid cau'r caffi dros dro.

Digwyddiadau

- 11 Mehefin i 11 Gorffennaf: **Crwydro Cwpan y Byd**. Rhowch y gorau i wylio pêl-droed am ychydig a cheisiwch briodoli anifeiliaid i'w gwledydd brodorol ar lwybr glannau'r llyn.
- Bob dydd Mercher o 21 Gorffennaf i 25 Awst: **Diwrnodau sgiliau a chrefftau coedwigaeth** yn ystod gwyliau'r haf. Bydd angen archebu lle.
- 23 Gorffennaf i 25 Awst: **Diwrnodau Hwyl Dydd Gwener**. Pob dydd Gwener yn ystod gwyliau'r haf.

Sgiliau a chrefftau

Hwyl dydd Gwener

Llwybrau beicio mynydd

Pethau i'w gwneud

Ym Mwlch Nant-yr-Arian

- Bwydo barcudiaid cochion bob dydd am 3.00pm
- Llwybr pob gallu glannau'r llyn
- Golygfeydd godidog
- Mannau chwarae i blant
- Llwybr pos anifeiliaid
- Llwybrau beicio mynydd heriol
- Cwrs cyfeiriannu
- Llwybr y Grib a llwybrau drwy'r coed
- Safleoedd picnic

Safleoedd picnic

Mannau chwarae i blant

Yn yr ardal

Mwynglawdd Arian
Plwm Llywernog
Un filltir i'r dwyrain. Archwiliwch gofnod byw o hanes mwyngloddio yng Ngheredigion

Pontarfynach
Rhaeadrau mawreddog a'r tair pont enwog.

Ystad yr Hafod
Llwybrau cerdded, dyfnentydd a golygfeydd darluniaidd o'r ystad brydferth hon: **www.hafod.org**

FCW5718 06/10

Manylion Cyswllt

Am yr holl wybodaeth diweddara am Bwlch Nant yr Arian, ewch i'n gwefan **www.forestry.gov.uk/bwlchnantyrarian** neu gallwch **01970 890453**

Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur wedi'i ailgylchu a gynhyrchir drwy ddefnyddio 50% o wastraff adferedig a 50% ffibr pren gwyryf. FSC SGS-COC-0912

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd SGS-FM/COC-0358. © 2006 Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd AC